# Geirfa | Ail-Fframio Picton

**Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod bod iaith yn esblygu, ac y gall ein dewis o eiriau gael effaith barhaol, yn enwedig ar gymunedau sydd ar y cyrion.**

---

Mae iaith yn bwysig; mae'n effeithio ar sut ydyn ni'n deall ac yn cyfnewid gwybodaeth. Gall iaith ddyrchafu neu ddifrïo, ac mae'n siapio'r ffordd yr ydym yn gweld ffigyrau hanesyddol.

Mae geiriau a oedd unwaith yn 'dderbyniol' bellach yn cael eu hystyried yn gwbl annerbyniol, ac mae llawer o ymadroddion ag iddynt ystyr hanesyddol sydd angen ei herio a'i gwestiynu.

Ein bwriad fel amgueddfa yw esbonio cyd-destun ehangach ein casgliadau gan ddefnyddio iaith fwy cynhwysol. Mae'r daflen hon yn esbonio rhai o'r dewisiadau ieithyddol a wnaethom wrth ddatblygu arddangosfa 'Ail-fframio Picton' gyda'n partneriaid. Mae hefyd yn rhoi mwy o gyd-destun i rai termau.

Ewch i'n gwefan i gael gwybod rhagor, ac i ddysgu mwy am ein nod o ddad-drefedigaethu ein casgliadau a'r ffordd yr ydym yn siarad https://bit.ly/3oE3mL0

---

### Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) BLM

Mudiad sydd â'i wreiddiau yn Unol Daleithiau America yw BLM, ac mae'n protestio yn erbyn hiliaeth systemig a thrais yn erbyn pobl Ddu. Arweiniodd llofruddiaeth George Floyd at ddicter a wnaeth BLM yn fudiad byd-eang. Bu protestiadau yng Nghymru, ac mae cofnod ohonynt i'w gweld yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

---

### pobl gaeth o Affrica / llafur caeth

Rydyn ni wedi penderfynu cyfeirio at bobl gaeth yn hytrach na chaethweision. Yn Saesneg, gwnaethom benderfyniad pwrpasol i ddefnyddio'r gair 'enslaved', a hynny er mwyn rhoi byrdwn y gweithredu ar y sawl a'u caethiwodd yn hytrach nag ar y dioddefwyr.

**y fasnach drawsiwerydd mewn pobl gaeth o Affrica**

Mae 'y fasnach gaethweision' yn derm mwy cyfarwydd i ddisgrifio'r cyfnod hwn. Ond rydyn ni wedi penderfynu defnyddio 'y fasnach drawsiwerydd mewn pobl gaeth o Affrica'; er mwyn canolbwyntio ar y dioddefwyr fel pobl a gymerwyd o'u cartrefi a'u gorfodi i gaethiwed.

---

**rhwng 12 a 15 miliwn o bobl**

Nid ydym yn gwybod yn union faint o bobl gafodd eu cipio o Affrica a'u cludo ar draws yr Iwerydd - mae rhai ffynonellau yn amcangyfrif y gallai'r ffigwr fod mor uchel â 20 miliwn.

---

**pobloedd brodorol**

Rydyn ni wedi defnyddio'r term hwn i ddisgrifio'r cymunedau brodorol oedd yn byw ar ynysoedd y Caribî cyn i drefedigaethwyr gyrraedd.

---

**arteithio yn anghyfreithlon**

Yn achos Picton, roedd arteithio Luisa Calderón yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon, ond dim ond am ei bod yn ferch rydd.
Mae'n bwysig pwysleisio fod system gyfreithiol Prydain wedi creu cyfreithiau oedd yn caniatáu ac yn cyfiawnhau erchyllterau yn erbyn pobl gaeth, gan gynnwys arteithio.

---

**'marwolaeth anghyfreithlon' pobl gaeth**

Roedd cyfreithiau yn rheoli'r ffordd y câi pobl gaeth eu trin, ond nid lles y bobl oedd y flaenoriaeth. Câi pobl gaeth eu hystyried fel eiddo, ac roedd marwolaeth anghyfreithlon person caeth yn cyfeirio at golli eiddo yn hytrach na cholli bywyd.

---

**Ymerodraeth Prydain**

"Y grŵp o wledydd a oedd, yn y gorffennol, yn cael eu teyrnasu neu eu rheoli gan y DU, gan gynnwys Awstralia, Canada, India, a llawer o rannau o Affrica" – Cambridge English Dictionary.